



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Tonyrefail
Heol Gilfach
Tonyrefail
RhCT
CF39 8HG**

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2016

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yw Tonyrefail. Mae 935 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 150 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn llai nag adeg yr arolygiad diwethaf, pan oedd 1,071 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 153 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae gan yr ysgol uned cyfnod allweddol 3, sy'n cefnogi disgyblion ar draws yr awdurdod lleol sydd ag anawsterau dysgu cymhleth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o Donyrefail a rhai o'r pentrefi cyfagos. Mae tua hanner y disgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tua 22% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru, sef 17.4%. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig, ac mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae gan ryw 20% o ddisgyblion angen addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.4%. Mae gan ryw 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2003. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth, dirprwy bennaeth dros dro, un pennaeth cynorthwyol ac un pennaeth cynorthwyol dros dro. Er Medi 2015, penodwyd pedwar arweinydd canol yn 'arweinwyr datblygol' i gynorthwyo'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Tonyrefail yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,462 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf yw £4,982 a'r isafswm yw £3,886. Mae Ysgol Gyfun Tonyrefail yn y chweched safle o blith yr 16 ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Gyfun Tonyrefail yn ddigonol oherwydd:

- dros y tair blynedd ddiwethaf, ym mwyafrif dangosyddion cyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn hanner uchaf yr ysgolion tebyg, ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad mewn Saesneg yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg yn gyson
- mae perfformiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â chyfartaledd y teulu ar gyfer bechgyn mewn llawer o ddangosyddion
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o gyfnodau allweddol blaenorol ym mwyafrif y dangosyddion
- bu gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb yn 2015, i fod uwchlaw deilliannau wedi'u modelu, ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg
- ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 4, nid yw perfformiad merched a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda â chyfartaleddau'r teulu ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion
- mae perfformiad mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf
- mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd annigonol mewn gwersi, ac maent yn gwneud gormod o gamgymeriadau llythrennedd a rhifedd yn eu gwaith
- cyn 2015, mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg yn gyson
- mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu'n rhoi her ddigonol i ddisgyblion gynhyrchu lefel y gwaith y maent yn abl i'w chynhyrchu
- ni chaiff disgyblion gyfleoedd digonol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant y tu allan i wersi Cymraeg
- nid yw safon toiledau disgyblion yn dderbyniol

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth ymroddgar a chyfeiriad cryf ar

gyfer yr ysgol

- mae'r ysgol wedi cryfhau ei huwch dŷm arweinyddiaeth yn ddiweddar, ac mae rolau yn gytbwys ac yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol
- mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn ddiweddar, ac mae hyn eisoes wedi cael effaith ar rai meysydd pwysig
- mae mwyafrif yr arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad ac yn arfarnu darpariaeth yn dda, ac maent yn gosod targedau cadarn ar gyfer gwella o ganlyniad
- ar y cyfan, mae cynlluniau gwella yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau ac ansawdd yr addysgu

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr wedi sicrhau deilliannau digon cryf yn gyson ar gyfer disgyblion yn y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4
- mae llawer o welliannau mewn trefniadau arwain yn rhy ddiweddar i fod wedi cael effaith sylweddol ar ddeilliannau disgyblion
- nid yw arweinwyr ar bob lefel yn nodi rhai agweddau pwysig ar danberfformio yn ddigon clir
- mae gormod o amrywiaeth yn nhrylwyredd yr hunanarfarnu
- mewn lleiafrif o achosion, nid yw cynlluniau ysgol gyfan ac adrannol yn cynnwys meini prawf llwyddiant na cherrig milltir mesuradwy ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd yn effeithiol

Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig perfformiad merched a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion

A2 Gwella cyfraddau presenoldeb disgyblion

A3 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu

A4 Sicrhau bod safon yr holl doiledau i ddisgyblion yn dderbyniol

A5 Cynyddu'r effaith a gaiff arweinwyr ar bob lefel ar ddeilliannau disgyblion trwy reolaeth llinell, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant mwy effeithiol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Dros y tair blynedd ddiwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad ym mwyafrif y dangosyddion allweddol wedi amrywio. Fodd bynnag, ym mwyafrif y dangosyddion, mae perfformiad dros y cyfnod hwn wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg, ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dros y tair blynedd ddiwethaf, ym mwyafrif y dangosyddion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o gyfnodau allweddol blaenorol.

Bu gwelliant mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg, yn 2014, ond gwelwyd dirywiad yn 2015. Roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn 2013 ymhell islaw deilliannau wedi'u modelu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd uwchlaw deilliannau wedi'u modelu a chyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2015, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yn cyd-fynd â deilliannau wedi'u modelu. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2015.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu, ac mae wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg dros y cyfnod hwn. Bu gwelliant mewn perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn 2013 a 2014 ond mae wedi dirywio rhywfaint yn 2015. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn cyd-fynd â deilliannau wedi'u modelu yn 2015. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Bu gwelliant yng nghyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* neu A mewn TGAU yn 2014, ond bu dirywiad yn 2015, ac mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

Ym Mlwyddyn 13, roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 3 uwchlaw cyfartaledd y teulu yn 2013 a 2014, ond mae'n is yn 2015. Mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a gyflawnwyd gan ddisgyblion dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu yn gyson. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C a'r gyfran sy'n ennill tair gradd A* neu A mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi gostwng yn 2015, ond yn y ddau achos, mae perfformiad yn parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar lefel 5 neu'n uwch, bu tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn ehangach na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Fodd bynnag, mewn llawer o ddangosyddion, mae bechgyn a

merched yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched yn y teulu o ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu ar y cyfan yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mewn llawer o ddangosyddion, mae'r bwlch hwn yn parhau i fod yn llai na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol dros y cyfnod hwn. Mae bechgyn yn perfformio'n well na chyfartaledd y teulu ar gyfer bechgyn yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Fodd bynnag, mae perfformiad merched islaw'r cyfartaledd ar gyfer merched yn y teulu o ysgolion tebyg mewn tua hanner y dangosyddion. Mewn mathemateg, mae perfformiad merched wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer merched mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

Yn 2015, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella, ac mae'n cyd-fynd â chyfartaledd y teulu ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob dangosydd yn 2014, ac roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn llawer ohonynt. Fodd bynnag, yn 2015, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion wedi dirywio ac wedi disgyn islaw cyfartaledd y teulu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn llawer o ddangosyddion. Mewn mathemateg, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion tebyg yn y teulu a ledled Cymru mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae llawer o ddisgyblion naill ai'n parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn y tair blynedd ddiwethaf.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae llawer o ddisgyblion wedi eu cymell yn dda, maent yn gweithio'n galed ac yn dal ati i ganolbwyntio ar dasgau yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hyn yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda, a gallant gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Maent yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau neu grwpiau, gan rannu syniadau a gwrando ar ei gilydd yn dda. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos lefelau rhagorol o annibyniaeth a gwydnwch yn eu dysgu, sy'n eu helpu i wneud cynnydd cryf iawn. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynegi eu hunain yn glir mewn gwaith trafod. Mae lleiafrif ohonynt yn cyfrannu ymatebion llafar meddylgar a datblygedig.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Nid oes gan leiafrif o ddisgyblion hyder i fynegi eu hunain ar lafar, ac maent yn ei chael yn anodd datblygu eu hatebion. Mae rhai disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig. Nid ydynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus nac yn gwrando'n ddigon da ar eu hathrawon na'u cyfoedion. Mae'r disgyblion hyn yn aros yn rhy oddefol mewn gwersi, maent yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio'n rhy hawdd ac nid ydynt yn dangos gwydnwch wrth wynebu tasgau heriol. Mae ychydig iawn ohonynt yn dangos ymgysylltiad cyfyngedig yn eu gwersi ac yn amharu ar ddysgu disgyblion eraill yn sgil eu hymddygiad aflonyddgar.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n gywir ac yn cynhyrchu darnau strwythuredig o ysgrifennu estynedig at ystod o ddibenion. Mae'r disgyblion hyn yn

defnyddio terminoleg bwnc yn hyderus yn eu hysgrifennu. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn llunio ymatebion rhugl a chytbwys sy'n defnyddio ystod eang o eirfa yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gwneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg, ac nid ydynt yn strwythuro eu hysgrifennu'n ddigon da.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, ac mae mwyafrif ohonynt yn dewis gwybodaeth berthnasol yn hyderus o ffynonellau amrywiol. Mae lleiafrif ohonynt yn dadansoddi ystod o destunau yn dda, ac yn crynhoi gwybodaeth yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hyn yn llunio casgliadau perthnasol. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion fedrau darllen cadarn.

Mae gan fwyaf y disgyblion fedrau rhif cadarn. Defnyddiant y medrau hyn yn briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo mesuriadau mewn dylunio a thechnoleg neu ddadansoddi data hinsawdd mewn daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae rhifedd sylfaenol lleiafrif o ddisgyblion yn cynnwys diffygion, ac nid ydynt yn hyderus wrth gyfrif yn y pen. Mae medrau rhif rhai disgyblion yn wan iawn.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn llwyddiannus i wella a chefnogi dysgu eu cyfoedion. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn defnyddio'r technegau hyn yn hynod effeithiol i ddatblygu ansawdd eu gwaith.

Mewn Cymraeg, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi gwella'n gyson ac yn cymharu'n dda â lefelau mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi dirywio yn 2015 ac mae ymhell islaw cyfartaledd y teulu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion amgyffrediad priodol o eiriau ac ymadroddion syml yn Gymraeg, ond nid yw llawer ohonynt yn cynhyrchu ysgrifennu digon estynedig ac mae'n dibynnu'n ormodol ar ddeunydd enghreifftiol.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â'r achosion prin o fwlio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall sut gallant gadw eu hunain yn iach, ac mae llawer ohonynt yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau corfforol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac maent yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a pharchus â staff, cyfoedion a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn ohonynt yn dangos ymddygiad anaeddfed ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill o bryd i'w gilydd.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, mae cyfraddau presenoldeb uwchlaw deilliannau wedi'u modelu a chyfartaledd y teulu, ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, rhwng 2012 a 2014, roedd cyfraddau presenoldeb ymhell islaw disgwyliadau wedi'u modelu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ac maent uwchlaw cyfartaledd

y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn 2015. Dirywiodd y gyfradd ar gyfer absenoldeb parhaus yn 2014, ond mae wedi cynyddu yn 2015. Mae wedi bod uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol am y tair blynedd ddiwethaf.

Ceir lefelau uchel o ymglymiad disgyblion mewn llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn cymryd rhan mewn adolygiadau adrannol o addysgu a dysgu ac ystod o ddigwyddiadau elusennol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Ceir ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol ar waith i sicrhau bod dysgu'n adeiladu'n dda ar yr hyn y mae disgyblion wedi ei astudio mewn cyfnodau allweddol blaenorol. Caiff disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn ystod briodol o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a chlybiau trafod.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i roi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar waith, ac mae'n darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer y disgyblion hynny sydd â medrau gwan. Ceir cyfleoedd defnyddiol a chynlluniedig i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm sy'n helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn mewn ystod o gyd-destunau addas. Mae lleiafrif o bynciau yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r cynllunio ar gyfer dilyniant mewn medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Cynhelir gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol ystyrlon i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae disgyblion yn archwilio materion cynaliadwyedd a dinasyddiaeth yn lleol a ledled y byd, er enghraifft trwy gysylltiadau ag ysgolion a phentrefi yn Affrica. Mae gan y pwyllgor eco brwdfrydig rôl weithgar mewn hyrwyddo cynaliadwyedd o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gwella'i ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 yn ddiweddar. Mae wedi cynyddu cyfran y disgyblion sy'n astudio ar gyfer y cwrs llawn TGAU ac wedi neilltuo mwy o amser i addysgu'r pwnc. Fodd bynnag, ar wahân i'r Eisteddfod flynyddol ar gyfer Blwyddyn 7, ychydig iawn o gyfleoedd a roddir i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a dathlu diwylliant Cymru y tu allan i wersi Cymraeg.

Addysgu: Digonol

Mae gan bron bob un o'r athrawon wybodaeth bwnc dda ac maent yn ffurfio perthynas weithio gref gyda disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau heriol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn eu helpu i wneud cynnydd cryf. Yn y

gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion a monitro eu cynnydd. Maent yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i wella'u gwaith.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn hynod fedrus wrth gynllunio gwersi sy'n gweddu'n agos i anghenion disgyblion unigol. Maent yn cynllunio tasgau hynod heriol ac yn datblygu medrau a hyder disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn galluogi disgyblion yn y gwersi hyn i wneud cynnydd rhagorol.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn gosod tasgau sy'n ddigon heriol neu wedi'u cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud cynnydd da. Ni ddefnyddir holi'n ddigon effeithiol i brofi a datblygu dealltwriaeth disgyblion, ac nid yw athrawon yn cynnwys cyfran ddigon mawr o ddisgyblion mewn trafodaeth ddosbarth. Mewn ychydig iawn o achosion, mae gwersi'n cael eu harwain yn ormodol gan athrawon, sy'n arafu cyflymdra'r dysgu. Nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon da mewn ychydig iawn o achosion.

Mae'r ysgol wedi diwygio ei harweiniad ar farcio ac asesu yn ddiweddar. Mae hyn yn rhoi cyngor addas i athrawon, ond mae gormod o amrywiad yn y modd y maent yn cymhwyso'r arweiniad hwn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r marcio'n ddigon rheolaidd. Mae llawer o athrawon yn nodi cryfderau a meysydd priodol i'w datblygu yn eu hadborth. Mewn lleiafrif o achosion, mae eu cyngor yn helpu disgyblion i ddatblygu eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o dargedau'n rhoi arweiniad digon clir i ddisgyblion ar sut i wella.

Mae lleiafrif o athrawon yn llwyddo i ddatblygu gallu disgyblion i ymgymryd â gweithgareddau hunanasesu ac asesu cyfoedion. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, ni ddefnyddir hunanasesu ac asesu cyfoedion yn effeithiol. Y rheswm am hyn yw nad yw athrawon yn ddigon detholus wrth nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r dulliau hyn, neu oherwydd nad ydynt yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddigonol o'r meini prawf llwyddiant y dylid eu defnyddio.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn sylweddol. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i nodi tanberfformio yn fanwl gywir ac ymyrryd yn gyflym i ddarparu cymorth ychwanegol. Mae'r systemau newydd hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae adroddiadau i rieni yn addysgiadol ac yn cynnwys targedau buddiol ar gyfer gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Caiff darpariaeth yr ysgol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan yr ysgol, ac maent yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os byddant yn cael unrhyw anawsterau.

Caiff ystod gynhwysfawr o faterion cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol eu cwmpasu'n effeithiol gan y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ddychmygus.

Rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta'n iach.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i fonitro presenoldeb. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb, gan gynnwys cyfraddau presenoldeb y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed. Mae system o wobrau a chosbau yn hyrwyddo ymddygiad da yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan yn dda.

Mae cysylltiadau agos ag ystod eang o asiantaethau allanol yn galluogi'r ysgol i sicrhau bod disgyblion sy'n agored i niwed yn cael cyfle i fanteisio ar ystod gynhwysfawr o strategaethau cymorth. Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad buddiol pan fydd disgyblion yn gwneud dewisiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae rhaglenni dysgu ac ymyriadau targedig gwerthfawr yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf. Mae cynorthwyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol mewn gwersi. Nodwedd nodedig yw'r ffordd y caiff disgyblion o'r uned anawsterau dysgu cymhleth eu hintegreiddio'n llwyddiannus mewn pynciau prif ffrwd priodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar. Mae staff a disgyblion yn deall ei harwyddair, 'Cyd-gredu, cydweithio, cyd-gyflawni' yn dda, ac mae ganddo rôl bwysig o ran hyrwyddo dyheadau uchel. Ceir lefel uchel o barch ar y ddwy ochr rhwng disgyblion a staff.

Caiff parch at bobl o bob cefndir ei hyrwyddo'n dda ac mae'r ysgol yn herio stereoteipio yn llwyddiannus. Caiff pob disgybl yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm, ac mae ystod addas o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r adeiladau'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae rhannau o'r adeiladau'n hen ac mewn cyflwr gwael, ond mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r adeiladau sydd ar gael ar y cyfan. Fodd bynnag, mae toiledau'r disgyblion yn yr ysgol is mewn cyflwr annerbyniol.

Mae adnoddau dysgu addas ar gyfer disgyblion, gan gynnwys digon o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth a choridorau yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn cefnogi dysgu'n briodol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth ymroddgar a chyfeiriad cryf ar gyfer yr ysgol. Maent wedi bod yn effeithiol wrth hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd sy'n seiliedig ar gydweithio i lwyddo. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn rhai meysydd pwysig fel presenoldeb. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith gynaledig ar lawer o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol wedi diwygio'i strwythur arwain yn ddiweddar, gan arwain at ddsbarthiad cytbwys o rolau a chyfrifoldebau o fewn yr uwch dîm arwain. Mae rolau newydd wedi cryfhau'r tîm ac yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae targedau'r ysgol yn briodol o heriol ac mae ei blaenoriaethau'n canolbwyntio'n dda ar agweddau pwysig fel llythrennedd a rhifedd a lliniaru effeithiau amddifadedd.

Er Medi 2015, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o brosesau mwy trylwyr. Er enghraifft, gwnaed newidiadau i'r ffordd y caiff data ei arfarnu a threfnwyd hyfforddiant ar gyfer pob un o'r staff ar ddadansoddi data. Mae hyn wedi galluogi mwyafrif o arweinwyr i ddefnyddio data yn effeithiol i gael darlun clir o gryfderau a gwendidau, ac olrhain a monitro cynnydd.

Mae trefniadau rheolaeth llinell yr ysgol, sydd newydd gael eu diweddarau, yn systematig a phwrpasol. Mae cofnodion cyfarfodydd rheolaidd yn fanwl a defnyddiol yn y rhan fwyaf o achosion, ac mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n briodol ar agweddau fel safonau ac addysgu a dysgu. Ceir pwyntiau gweithredu clir, ac fe gaiff y rhain eu monitro'n rheolaidd. O ganlyniad, caiff arweinwyr ac athrawon ystafell ddsbarth eu dwyn i gyfrif yn gynyddol effeithiol. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer rheolaeth llinell rhai meysydd, fel darpariaeth ar gyfer y Gymraeg, yn aneglur. O ganlyniad, nid aethpwyd i'r afael â rhai materion pwysig yn ddigon da.

Mae llawer o arweinwyr canol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, mae'r effaith y maent wedi'i chael ar safonau wedi bod yn rhy amrywiol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas. Lle ceir pryderon am berfformiad, mae'r ysgol yn darparu cymorth buddiol. Cymerwyd camau gweithredu cadarn i ddelio â'r achosion prin o danberfformio.

Mae llywodraethwyr wedi ymrwymo'n llawn i'r ysgol ac maent yn darparu cymorth gwerthfawr. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn herio'r ysgol yn gynyddol ynglŷn â'i deilliannau ac maent yn datblygu eu dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol o gymharu â pherfformiad ysgolion eraill.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn ddiweddar. Er bod y trefniadau hyn yn gymharol newydd, maent eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar rai agweddau ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau ar gyfer gwella ansawdd wedi sicrhau deilliannau digon cryf yn gyson, er enghraifft yn y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn werthusiad didwyll a gonest o'i gwaith. Mae'n defnyddio ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys data perfformiad, arsylwadau gwersi, craffu ar waith a safbwyntiau disgyblion. Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad manwl o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu ac asesu. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon clir ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o uwch arweinwyr yn gweithio'n agos â'u hadrannau cyswllt i gefnogi eu prosesau hunanarfarnu. Mae mwyafrif yr hunanarfarniadau adrannol yn darparu dadansoddiad cywir a thrylwyr o gryfderau a diffygion, ac yn nodi strategaethau ar gyfer gwella yn glir. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw arweinwyr canol yn cynnal arfarniad digon trylwyr, ac, o ganlyniad, mae eu barnau yn rhy hael.

Yn gyffredinol, mae uwch arweinwyr yn dadansoddi data yn effeithiol iawn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r rhan fwyaf o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ym mherfformiad disgyblion. Mae dealltwriaeth arweinwyr o ddata perfformiad yn datblygu'n dda, ac mae mwyafrif yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir o'u dadansoddiad o ddeilliannau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn nodi rhai agweddau pwysig ar danberfformio yn ddigon clir, fel y safonau a gyflawnir gan ferched yng nghyfnod allweddol 4.

